# Gwerthusiad o'r broses o weithredu Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Crynodeb Ymchwil | Ymchwil gymdeithasol | Rhif: 28/2013

Nod yr astudiaeth hon oedd gwerthuso'r broses o weithredu *Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018* yn ystod y tair blynedd gyntaf y mae wedi bod yn weithredol.

Mae'r Strategaeth yn ymdrin â'r defnydd o alcohol, cyffuriau anghyfreithlon a chyfreithlon (rhai ar bresgripsiwn a thros y cownter) o fewn ei chylch gwaith ac un o'i hamcanion allweddol yw lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. Caiff pedwar maes blaenoriaeth eu hadnabod yn y Strategaeth: atal niwed; cymorth i bobl sy'n camddefnyddio sylweddau; bod yn gefn i deuluoedd a'u hamddiffyn; a mynd i'r afael ag argaeledd.

Roedd y modd yr aethpwyd ati i gynnal y gwerthusiad yn seiliedig ar ddulliau cymysg, a'r rheiny'n cynnwys: adolygiad o ddogfennau polisi ac adroddiadau, adolygiad â ffocws o'r llenyddiaeth ar 'yr hyn sy'n gweithio' mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau, craffu ar Gronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau (gan gynnwys data Proffil Canlyniadau Triniaethau), dadansoddiad o werthusiadau blaenorol, a chyfweliadau ffurfiol wedi'u recordio gyda 52 o randdeiliaid allweddol yng Nghymru.

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

**Casgliadau**:

- Roedd y Strategaeth yn gadarn yn ei hanfod, ac roedd cefnogaeth eang iddi. Roedd y pwyslais ar alcohol yn ogystal â chyffuriau anghyfreithlon yn cael ei ganmol yn eang hefyd.
- Roedd pob un o brif elfennau'r Strategaeth wedi cael ei gweithredu, er bod cryn dipyn yn fwy o adnoddau wedi cael eu neilltuo i 'roi cymorth i bobl sy'n camddefnyddio sylweddau' nag i'r meysydd gweithredu eraill.
- Roedd cynnydd da wedi cael ei wneud o ran rhoi 'cymorth amlapiol'. Fodd bynnag, mae'r gwasanaethau hyn yn dal i fod yn fratiog ledled y wlad.
- Roedd y prosesau comisiynu'n amrywiol o ran tegwch, effeithiolrwydd a thryloywder, ac roedd penderfyniadau'n aml yn anodd i ddarparwyr eu herio.
- Nid oedd Bwrdd Gweithredu'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau a'r Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau'n gweithio mor effeithiol ag y gallent.
- Er bod sawl enghraifft o arfer rhagorol o ran cyflenwi gwasanaethau ledled Cymru, mae llawer o anghysondeb yn dal i fod rhwng ardaloedd.
- Nid oedd Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau (WNDSM) yn cynhyrchu gwybodaeth sy'n asesu perfformiad na chanlyniadau'n ddigonol.
- Nid oes strategaeth ymchwil a gwerthuso eglur wedi'i chynnwys yn y Strategaeth na'r Cynlluniau Cyflawni.

**Nodau a methodoleg**

Prif nodau'r gwerthusiad oedd pennu a oedd y canlynol yn wir ac i ba raddau:

(1) Pob agwedd ar y Strategaeth wedi cael ei gweithredu

(2) Y bwriad i ddarparu "gwasanaethau amlapiol" wedi cael ei weithredu'n llawn

(3) Arfer da wedi cael ei ddilyn;

(4) Adnoddau wedi cael eu dyrannu'n effeithiol

(5) Ystadegau'n cael eu defnyddio'n effeithiol i fonitro effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd asiantaethau triniaeth

(6) Tystiolaeth o leihau niwed o ganlyniad i weithredu'r Strategaeth.

Ar adeg y gwaith maes roedd newidiadau sylweddol wrthi'n cael eu gwneud ym maes camddefnyddio sylweddau yng Nghymru, gan gynnwys newid o gomisiynu gwasanaethau ar lefel leol i'w comisiynu ar lefel ranbarthol a diwygio'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol cenedlaethol. Roedd y gwerthusiad yn canolbwyntio'n bennaf ar y system cyn y newidiadau hyn, ond fe wnaeth sylwadau hefyd ar eu goblygiadau tebygol.

O ystyried cymhlethdod a maint y dasg, bu'n rhaid i ni gynnal asesiad pragmatig o'r hyn oedd yn ddichonadwy a pha ddulliau casglu a dadansoddi data fyddai'n cynhyrchu'r canlyniadau mwyaf defnyddiol o fewn yr amser cyfyngedig a oedd ar gael. Fe roddon ni'r pwyslais mwyaf ar gynnal cyfres o gyfweliadau manwl i geisio gwybodaeth a safbwyntiau gan amrywiaeth eang o 'randdeiliaid allweddol' yng Nghymru. Fe achosodd cyfyngiadau ar amser ac adnoddau i ni hepgor un o'r lleisiau pwysicaf o'r ymarfer hwn, sef lleisiau defnyddwyr gwasanaethau eu hunain, ac rydym yn cydnabod bod hyn yn un o wendidau'r astudiaeth. Fodd bynnag, mae adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Arolygiaeth Iechyd Cymru (2012) yn cynnwys canlyniadau cyfweliadau o'r fath, ac mae'r canfyddiadau'n ategu nifer o'n casgliadau ni.

I grynhoi, roedd y canlyniadau'n seiliedig ar y dulliau a'r ffynonellau gwybodaeth canlynol:

(1) adolygiadau a dadansoddiad o ddogfennau ac adroddiadau presennol, gan gynnwys y Strategaeth ei hun, cynlluniau cyflawni, rhestrau o brosiectau a gwasanaethau a gyllidwyd, a dogfennau polisi ac arfer mewnol a chyhoeddedig eraill;

(2) adolygiad â ffocws o'r llenyddiaeth ymchwil gyffredinol ar 'yr hyn sy'n gweithio' mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau, i'w defnyddio fel sail i asesu'r Strategaeth a'r cynlluniau cyflawni;

(3) craffu ar ddata ystadegol sydd ar gael o gronfeydd data cenedlaethol;

(4) dadansoddiadau o werthusiadau blaenorol o agweddau ar ymyriadau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru;

(5) cyfweliadau ffurfiol wedi'u recordio gyda 52 o randdeiliaid

allweddol, gan gynnwys swyddogion y llywodraeth, comisiynwyr lleol a rhanbarthol, rheolwyr asiantaethau darparu yn y trydydd sector, meddygon teulu ac ymgynghorwyr, rheolwyr yn yr heddlu, yn y gwasanaeth prawf ac mewn carchardai, aelodau o grwpiau cynghori ac arbenigwyr allanol eraill;

(6) trafodaethau anffurfiol gyda sawl un arall yn y maes.

**Canfyddiadau**

- Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu bod dyluniad y Strategaeth yn seiliedig ar egwyddorion eglur (gan gynnwys ffocws ar leihau niwed, cydbwysedd rhwng cyffuriau ac alcohol, a dulliau partneriaeth) a oedd yn cael eu cefnogi'n eang yng Nghymru ac yn tynnu ar ystod o syniadau, profiadau a thystiolaeth.

- Cynhaliwyd ymgynghoriadau eang ar draws y llywodraeth a chyda rhanddeiliaid allanol, ac fe gyflawnodd y Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau (panel o arbenigwyr ar gamddefnyddio sylweddau sy'n cynrychioli ystod amrywiol o sefydliadau), rôl gynghori bwysig yn y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth. Cafodd tystiolaeth o waith ymchwil ei defnyddio'n helaeth, er nad oedd hynny wastad yn digwydd mewn modd systematig.

- Mae dadansoddiadau o gynnwys dogfen y Strategaeth yn dangos ei bod yn gyson fwy neu lai â thystiolaeth fyd-eang o ffyrdd effeithiol o fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau.

- Yn seiliedig ar 'adolygiad systematig o adolygiadau systematig', mae'n amlwg bod tystiolaeth ryngwladol dda i gyfiawnhau'r ffocws cryf ar gymorth i bobl sy'n camddefnyddio sylweddau, ac yn enwedig y defnydd o ymyriadau fferyllol i ddarparu cynhaliaeth, yn ogystal ag ymyriadau seicogymdeithasol. Ceir peth tystiolaeth hefyd i ategu ymyriadau ataliol mewn ysgolion, a'r defnydd o ymyriadau byr ar gyfer pobl sy'n camddefnyddio alcohol.

- Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y cyfweliadau'n wybodus ynghylch y Strategaeth, ac roedd y rhan fwyaf yn ystyried ei bod yn ddogfen dda, gyda sylwadau yn arbennig am ei chwmpas eang, y ffaith ei bod yn cynnwys alcohol, a'i darllenadwyaeth ac eglurder.

- Roedd lleiafrif bychan yn teimlo nad oedd digon o sylw i faterion arbennig na grwpiau o gleientiaid, gan gynnwys troseddwyr a defnyddwyr gwasanaethau annhraddodiadol.

- Roedd rhai ymatebwyr yn meddwl bod y ffrâm amser o 10 mlynedd yn rhy hir i barhau i fod yn gwbl berthnasol wrth i amgylchiadau a safbwyntiau newid. Fodd bynnag, roedd eraill yn croesawu'r ffrâm amser hirach, yn anad dim fel dull o atal adweithiau rhy frysiog i syniadau 'ffasiynol' neu

orchmynion gwleidyddol.

- Canfu’r gwerthusiad nifer o densiynau a phenblethau sylfaenol sy’n effeithio ar ymdrechion i ymdrin â phroblem mor fawr a chymhleth â phroblem camddefnyddio sylweddau. Mae’r rhain yn cynnwys:

    1. Safbwyntiau gwahanol am effeithiolrwydd perthynol – ac felly’r pwysiad perthynol a roddir i’r – gwahanol ffyrdd o ymateb i gamddefnyddio sylweddau.

    2. Safbwyntiau gwahanol ynghylch sut ac i ba raddau y dylid addasu’r modd y gweithredir y Strategaeth mewn ymateb i safbwyntiau newidiol arbenigwyr, tystiolaeth newydd, neu bryderon gwleidyddol neu bryderon yn y cyfryngau, yn ogystal â dyfodiad cyffuriau newydd neu batrymau newydd o gamddefnyddio sylweddau.

    3. Tensiynau rhwng y nod o weithredu gwasanaethau gweddol gyson ledled Cymru, a’r nod o ymateb yn effeithiol i anghenion lleol.

    4. Tensiynau ym maes comisiynu, rhwng cystadleuaeth, cydweithio, a’r angen am barhad.

Daeth y tensiynau hyn i’r amlwg dro ar ôl tro ac ar sawl gwedd amrywiol yn y cyfweliadau gyda rhanddeiliaid.

*Dyrannu adnoddau*

- Cafwyd fod gan y Gangen Camddefnyddio Sylweddau ddylanwad sylweddol – yn bennaf trwy ei pherchnogaeth ar y Cynlluniau Cyflawni dros dair blynedd, y rôl gyfryngol a gyflawnir gan y Timau Rhanbarthol Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau (SMART), a’i rheolaeth derfynol ar ‘linynnau’r pwrs’ – ar siâp bras y gwasanaethau a fyddai’n cael eu comisiynu mewn ardaloedd lleol.

- Serch hynny, o fewn y fframwaith hwn, roedd digonedd o le ar gyfer penderfyniadau lleol ynghylch union natur yr ymyriadau a fyddai’n cael eu comisiynu a pha asiantaethau fyddai’n eu darparu – tan yn ddiweddar roedd y fath bŵer yn bennaf yn nwylo comisiynwyr ar lefel Partneriaethau Diogelwch Cymunedol.

- Roedd amrywiadau eang ledled y wlad o safbwynt natur, ansawdd, tegwch, effeithiolrwydd a thryloywder y prosesau a ddilynir, ac roedd ystod o arferion comisiynu i’w cael, o ardaloedd a oedd yn defnyddio comisiynu cystadleuol fel y norm, i’r rheiny lle’r oedd y rhan fwyaf o gontractau’n cael eu hadnewyddu’n rheolaidd heb gystadleuaeth. Roedd y rhan fwyaf o’r cyfweleion yn cytuno bod rhai comisiynwyr rhagorol i’w cael a rhai yr oedd eu harferion ymhell o fod yn foddhaol. Nodwyd hefyd nad oedd ffordd foddhaol o gwyno am yr ail grŵp.

- Mewn ymateb i'r cwestiwn a oedd yn gofyn a fyddai dyfodiad Byrddau Cynllunio Ardal (APB), y cyrff comisiynu rhanbarthol sydd wedi disodli comisiynwyr ar lefel Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, yn debygol o greu dull mwy strategol, mwy o gysondeb a chomisiynu o ansawdd uwch, cymysg oedd safbwyntiau'r rhanddeiliaid. Roedd y rhan fwyaf o gyfweleion yn teimlo bod ganddynt y potensial ar gyfer prosesau penderfynu gwell a dulliau mwy strategol, er y mynegwyd rhai pryderon y gallent gael eu rhuthro oddi ar y trywydd gan unigolion pwerus, er enghraifft rhai a fyddai'n dadlau dros fuddiannau ardaloedd lleol arbennig o fewn y rhanbarth.

- Nodwyd hefyd fod canllawiau terfynol ynghylch rôl a phwerau Byrddau Cynllunio Ardal wedi bod yn araf yn dod ar glawr, ac yn eu habsenoldeb bod gwahaniaethau sylweddol eisoes wedi dod i'r amlwg ledled Cymru o ran sut yr oedd y Cadeiryddion yn dehongli eu tasgau. Fodd bynnag, yn dilyn adolygiad gan Lywodraeth Cymru o Fyrddau Cynllunio Ardal, cafodd canllawiau o'r fath eu cyhoeddi yn fuan wedi i ni gwblhau ein hymchwil.

*Y system ar y cyfan: cwmpas, cydbwysedd, cydlyniad a darnio*

- Er gwaethaf rhai bylchau yn yr wybodaeth roedd yn amlwg, er bod y gwasanaethau a gyllidir yn rhychwantu'r ystod lawn o ymyriadau a gynigir yn nogfen y Strategaeth, bod y pwyslais mwyaf o bell ffordd (o ran niferoedd y prosiectau a dyrannu cyllid) yn cael ei roi ar un yn unig o'r meysydd gweithredu yn y Strategaeth, sef 'cymorth i bobl sy'n camddefnyddio sylweddau'. Roedd hyn yn cwmpasu ystod o wasanaethau, a'r mwyaf cyffredin oedd triniaeth trwy bresgripsiwn neu ymyriadau seicogymdeithasol. Ychydig o fuddsoddi oedd mewn 'Atal niwed' neu 'Mynd i'r afael ag argaeledd' o'i gymharu.

- Er gwaethaf yr anghydbwysedd hwn a oedd yn bodoli yn ôl pob golwg, roedd y rhan fwyaf o'r cyfweleion yn weddol hapus gyda dosbarthiad y cyllid rhwng meysydd gweithredu. Efallai fod yr anghytuno mwyaf chwyrn rhwng cyfweleion â chefndiroedd ym myd iechyd a chyfweleion o gefndiroedd eraill, ynghylch lefel y flaenoriaeth y dylid ei rhoi i driniaeth glinigol o'i chymharu ag ymyriadau seicogymdeithasol a chymorth 'amlapiol'.

- O ran gweithrediad y system ar y cyfan, roedd cytundeb eang ymhlith rhanddeiliaid ei fod yn amrywio'n eang o safbwynt ansawdd a chydlyniant ledled Cymru, gyda gwasanaethau mewn nifer o ardaloedd dan anfantais oherwydd darnio a dyblygu, a 'thaith' unigolyn drwyddynt yn aml heb fod yn esmwyth nac yn 'ddi-dor'. Yn rhy aml roedd cystadleuaeth rhwng asiantaethau, trefniadau cyllido cymhleth, neu ddiffyg cyfathrebu neu gydlynu'n amharu arni. Roedd rhai'n dal i obeithio y byddai problemau o'r fath yn gwella yn sgîl dyfodiad Byrddau Cynllunio Lleol.

- Ar yr un pryd, mynegwyd rhai pryderon difrifol ynghylch y posibilrwydd o golli gwasanaethau i droseddwyr – a'r effaith gynyddol ar y system gyfan – pe bai Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu'n penderfynu gwario'r cyllid a arferai gael ei ddefnyddio i redeg y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau (na fydd yn cael ei neilltuo mwyach) ar bethau eraill.

*Trosolwg, monitro a rheoli newid*

- Ychydig o'r cyfweleion a fynegodd hyder yng nghywirdeb a gwerth y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a ddefnyddir i fonitro perfformiad ar lefel leol ac ar lefel darparwyr unigol, ac roedd y rhan fwyaf yn croesawu'r newid a oedd ar fin digwydd i fesurau sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau. Roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr a chomisiynwyr yn cytuno hefyd mai'r ffordd fwyaf teg a chynhyrchiol o ddeall pa mor dda yr oedd asiantaeth yn cyflawni ei thasgau oedd trwy ystyried dangosyddion perfformiad ffurfiol ochr yn ochr â data mwy ansoddol, adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau, a thrafodaethau mewn cyfarfodydd monitro.

- Nododd nifer fach o ddarparwyr gwasanaethau, er bod eu gwaith yn mynd trwy brosesau craffu manwl, nad oedd hyn yn wir am waith comisiynwyr, ac y dylai fod mecanweithiau cwynion mwy ffurfiol ar gyfer darparwyr sy'n anfodlon ar weithdrefnau neu benderfyniadau.

- Nodwyd diffygion hefyd o ran trosolwg ar weithredu'r Strategaeth gyfan. Ystyrir mai'r Bwrdd Gweithredu oedd y corff allweddol o bosib i wneud sylwadau o ran pa mor dda yr oedd y broses o weithredu'r Strategaeth yn mynd rhagddi, ac i herio swyddogion y Llywodraeth os oedd problemau'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, cafodd y Bwrdd ei ddisgrifio'n eang fel corff a oedd yn rhy fawr ac afrosgo, yn colli ffocws, ac yn tueddu at ymgolli mewn manylion.

- Nodwyd angen hefyd am fath ehangach o drosolwg ar y Strategaeth – a hwnnw'n ymwneud â meddwl strategol ynghylch y 'cyfeiriad teithio' cyffredinol, yn enwedig ar adeg pan fo patrymau newydd o gamddefnyddio sylweddau'n dod i'r amlwg ac ymatebion newydd (megis yr agenda 'adferiad') yn cael eu pleidio. Y corff allweddol a grybwyllwyd yn y cyd-destun hwn oedd y Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau a oedd wedi chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth ond a oedd i'w weld fel pe bai heb gael rhyw lawer o ddylanwad wedi hynny.

- Canfuwyd fod y gronfa ddata genedlaethol (WNDSM) yn dioddef problemau mawr gyda chywirdeb a data coll. Ar ben hynny, nid yw'r gronfa ddata genedlaethol yn caniatáu monitro arhydol mewn perthynas â chynnydd

defnyddwyr gwasanaethau ar ôl iddynt gael triniaeth.

- Lle mae ymchwil a gwerthuso yn y cwestiwn, canfuwyd nifer o astudiaethau ar wahân, ond nid oeddent wedi cael eu casglu mewn un lle ac roedd yn ymddangos fel pe na bai cynllun ymchwil systematig.

*Beth ellir ei gasglu am effeithiolrwydd gweithredu'r Strategaeth?*

- Doir i'r casgliad, er bod Llywodraeth Cymru'n amlwg yn ymrwymedig i ddefnyddio monitro, gwerthuso ac ymchwil i ddatblygu a gwella'i gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, nad oes llawer iawn o dystiolaeth gref o effeithiolrwydd prosiectau unigol, mathau arbennig o ymyriadau, nac yn wir y modd y gweithredir y Strategaeth gyfan. Mae hyn i'w briodoli i raddau helaeth i wendidau yn nyluniad yr amryw offerynnau a chronfeydd data ar gyfer casglu gwybodaeth, ar y cyd â chydymffurfiaeth wael ymhlith ymarferwyr o ran darparu'r data y gofynnir amdano'n gywir ac yn llawn.

- Ar ben hynny, er bod nifer o werthusiadau mewnol ac allanol wedi cael eu cwblhau, nid yw'r rhain wedi bod yn cael eu cynllunio'n systematig ar y cyfan ac maent yn aml wedi cael eu mallu gan broblemau gydag argaeledd data priodol. Maent hefyd yn aml wedi bod yn fyr o ran amser ac wedi bod yn cael eu comisiynu'n rhy hwyr i sicrhau bod systemau casglu data priodol yn cael eu datblygu o'r cychwyn.

- Yn fyr, o ran yr hyn y gellir ei ddweud yn hyderus am effeithiolrwydd gweithredu'r Strategaeth, mae'r rhestr braidd yn fyr. Mae'n amlwg o ddata Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau bod amseroedd aros ar gyfer asesiad a thriniaeth wedi gostwng, ac o ddata Proffil Canlyniadau Triniaethau, ymhlith y rheiny sy'n dechrau derbyn triniaeth, bod gwelliannau byrdymor o leiaf wedi bod o ran defnyddio alcohol a chyffuriau, iechyd corfforol a seicolegol, ac ansawdd bywyd, er bod symiau mawr o ddata coll yn bwrw peth amheuaeth ar y canfyddiadau hyn.

- Ychydig o ganfyddiadau cadarnhaol sydd i'w cael yn yr ymchwil gyhoeddedig sydd ar gael hefyd, yn enwedig o ran gostyngiadau mewn cyfraddau camddefnyddio sylweddau a chynnydd mewn perthynas â phroblemau cymdeithasol, ond eto mae'n rhaid ychwanegu cafeatau oherwydd gwendidau mewn data a methodoleg. Mae'n rhaid casglu ar y cyfan bod holl faes casglu, monitro a gwerthuso data yn un y mae angen rhoi sylw manwl a systematig iddo. Yn wir, gellid dadlau y dylai rhaglen gynlluniedig o ymchwil a gwerthuso gael ei chynnwys yn y Strategaeth a'i Chynlluniau Cyflawni.

**Argymhellion**

- Rydym yn argymell bod nodau, aelodaeth ac amodau gorchwyl y Bwrdd Gweithredu'n cael eu hadolygu ar fyrder, gyda golwg ar arfogi'r Bwrdd i arfer trosolwg fwy effeithiol ar weithredu'r Strategaeth a herio perfformiad y Llywodraeth yn y maes hwn pan fo'n angenrheidiol.

- Rydym yn argymell bod nodau, gweithrediad ac aelodau'r Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau'n cael eu hadolygu er mwyn ei arfogi i wneud cyfraniad mwy rhagweithiol ac effeithiol i ddadleuon ynghylch newidiadau posib mewn dull neu bwyslais yn ystod oes y Strategaeth. (Mae achos hefyd dros 'adolygiad canol-Strategaeth' ffurfiol dan arweiniad y Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau). Dylid ystyried creu swydd â thâl ar gyfer y Cadeirydd ac/neu aelodau sy'n cynnal ymchwiliadau penodol, ac i ddyrannu mwy o adnoddau i roi cymorth i'r Bwrdd (e.e. ar gyfer chwiliadau llenyddiaeth, comisiynu ymchwil ar raddfa fechan, neu ddadansoddi data).

- Rydym yn argymell bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i greu gweithdrefn gwynion ffurfiol mewn perthynas â chomisiynu a phenderfyniadau eraill a wneir gan Fyrddau Cynllunio Ardal.

- Rydym yn argymell bod adolygiadau trylwyr yn cael eu cynnal o Gronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau er mwyn penderfynu pa fathau o wybodaeth sydd fwyaf defnyddiol ar gyfer monitro'r gwasanaethau a ddarperir a mesur canlyniadau mewn modd ystyrlon, gyda golwg ar roi'r gorau i gasglu gwybodaeth segur, a chanolbwyntio ar ddata y mae'n amlwg bod iddo ddiben defnyddiol. Dylid rhoi blaenoriaeth hefyd i ddod o hyd i'r ffyrdd mwyaf effeithiol o dracio llwyddiant unigolion ar draws gwahanol ddarparwyr dros amser.

- Rydym yn argymell bod camau gweithredu'n cael eu cymryd i sicrhau bod cydymffurfiaeth â gofynion cofnodi data'n symud yn nes at 100 y cant, yn enwedig mewn perthynas â darnau o wybodaeth a fydd (yn ôl ein hawgrym ni) yn cael eu hamlygu fel rhai hanfodol. Dylai dialog gyda'r rheiny sy'n gyfrifol am ddarparu'r data gynnwys esboniadau i ddynodi sut y mae'r cronfeydd data wedi cael eu gwella, yn ogystal â mwy o adborth ar ganlyniadau dadansoddiadau, er mwyn eu hargyhoeddi bod eu cofnodion yn cael eu defnyddio mewn modd cynhyrchiol.

- Rydym yn argymell bod mwy o waith dadansoddi'n cael ei wneud ar ddata Proffil Canlyniadau Triniaethau a bod y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar ffurf fwy hygyrch.

- Rydym yn argymell bod strategaeth ymchwil a gwerthuso gydlynol yn cael ei chynnwys mewn cynlluniau cyflawni. Dylai gwerthusiadau gynnwys nid dim ond prosiectau a gomisiynwyd yn ganolog, ond, er enghraifft, astudiaethau cymharol o ansawdd gweithredu ac effaith ymyriadau

seicogymdeithasol a gyflawnir yn rheolaidd ledled y wlad; gellid trefnu hefyd bod cronfa fechan ar gael ar sail gystadleuol i ariannu gwerthusiadau o arfer arloesol lleol.

- Yn ogystal, er ein bod yn cydnabod y rhwystrau sy'n cael eu creu gan gyfyngiadau cyllidebol cyfredol, rydym yn credu bod achos cryf dros ddatblygu rhaglen gynlluniedig o ymchwil ehangach, er enghraifft i batrymau newidiol o gamddefnyddio sylweddau yng Nghymru, neu i broblemau cyffuriau neu alcohol ymhlith grwpiau cymdeithasol penodol. Byddai astudiaethau o'r fath – yr ydym ni'n credu y dylai'r Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau chwarae rhan bwysig yn y trefniadau i gynnal trosolwg arnynt – yn darparu sylfaen dystiolaeth gref ar gyfer datblygu Strategaethau Camddefnyddio Sylweddau i Gymru yn y dyfodol.

- Rydym yn argymell bod cyfarwyddiadau da'n cael eu rhoi i dywys pobl at werthusiadau o ymyriadau a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru a'u bod yn cael eu harddangos gyda'i gilydd mewn lle priodol ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae achos hefyd dros greu cyfres wedi'i rhifo o astudiaethau gyda chloriau safonol. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i ddwyn ynghyd werthusiadau a gomisiynwyd neu a gynhyrchwyd ar lefel leol a gosod y goreuon o'u plith ar y wefan.

- Rydym yn argymell y dylai'r gangen Camddefnyddio Sylweddau barhau i roi sylw gofalus i arferion gweithio a threfniadau llywodraethu Byrddau Cynllunio Ardal, yr ydym ni'n ystyried eu bod yn hanfodol i weithredu'r Strategaeth yn effeithiol. Dylai hyn adeiladu ar, a monitro'r gwaith o weithredu ei chanllawiau diweddar (a gyhoeddwyd wedi i ni gwblhau ein hymchwil), gan ganolbwyntio ar faterion megis aelodaeth o Fyrddau Cynllunio Ardal; eu pwerau; eu rolau strategol a chomisiynu; eu perthnasoedd â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a'r Gangen Camddefnyddio Sylweddau; eu systemau cymorth gweinyddol a gwybodaeth; a'u trefniadau llywodraethu, gan gynnwys gweithdrefnau cwynion.

- Dylid rhoi ystyriaeth bellach i, ac, os ystyrir bod hynny'n briodol, dylid rhoi cyngor ynghylch sut orau i asesu angen ar draws rhanbarth; sut i sicrhau bod cydbwysedd yn cael ei gynnal rhwng gwariant ar, dyweder, triniaeth feddygol a 'gwasanaethau amlapiol' wrth i'r cyllid fynd yn llai; a'r mathau o brosesau comisiynu y dylid eu dilyn (e.e. o ran cydbwysedd rhwng manylu'n union ar wasanaethau a chaniatáu hyblygrwydd; neu i ba raddau y dylid rhoi contract ar gyfer gwasanaethau ar sail 'cystadleuaeth').

- Rydym yn argymell y dylid llunio cynlluniau wrth gefn i helpu i lenwi'r bylchau difrifol yn y gwasanaethau a ddarperir a

fydd yn ymddangos os bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu mewn un ardal neu fwy'n penderfynu defnyddio'u cyllid presennol ar gyfer y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau at ddibenion eraill.

- Rydym yn argymell y dylid parhau i roi sylw difrifol i ffyrdd o wella profiad defnyddwyr gwasanaethau o ymyriadau camddefnyddio sylweddau trwy 'gydgysylltu' gwasanaethau'n fwy effeithiol; er enghraifft trwy ddatblygu ymhellach y trefniadau rhannu gwybodaeth, offerynnau atgyfeirio ac asesu cyffredin, trosglwyddiadau cydgysylltiedig pan fo defnyddwyr yn gadael gwasanaethau arbennig, a mwy o bwyntiau cyswllt unigol, 'siopau un stop' a chydleoli asiantaethau.

- Dylid gwneud ymdrechion pellach hefyd i wella cysylltiadau a symleiddio llwybrau atgyfeirio rhwng asiantaethau triniaeth a'r rheiny sy'n darparu gwasanaethau 'amlapiol' megis cymorth gyda thai, hyfforddiant a chyflogaeth.

**Awdur:**
Yr Athro Trevor Bennett
Dr Katy Holloway
Yr Athro Mike Maguire
Prifysgol Morgannwg

Mewn cydweithrediad gyda:
Yr Athro Odette Parry
Prifysgol Glyndŵr

Kate Williams
Prifysgol Aberystwyth

Dr Rossana Oretti
Uned Ddibyniaeth Gymunedol
Caerdydd

**ISBN** 978-0-7504-9419-9